

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Adran 6 (Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Dogfen cyfeirio

Cefndir

1. Mae dyletswydd Adran 6 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal ac ehangu bioamrywiaeth cyn belled ag y bo hynny'n gyson â chyflawni eu swyddogaethau yn briodol, gan hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau drwy wneud hynny.
2. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r dulliau a gymerwyd gan APCAP i ymgorffori'r ddyletswydd yn ei fframwaith cynllunio corfforaethol.
3. Mae dibenion y Parc Cenedlaethol yn cynnwys cadwraeth a chyfoethogi bywyd gwylt (Deddf yr Amgylchedd 1995). Mae cyfrifoldeb yr Awdurdod i fynd ati i gyflawni'r diben hwn, ac Egwyddor Sandford (sy'n rhoi blaenoriaeth i gadwraeth dros yr ail ddiben mewn achosion o wrthdaro digymod) yn golygu bod cydnerthedd bioamrywiaeth ac ecosystemau wedi cael lle amlwg ym mholisiau'r Parc Cenedlaethol, yn fframwaith cynllunio corfforaethol yr Awdurdod, ac yn y dulliau gweithredu.
4. Mae gofyniad Adran 6 yn rhoi cyfle ffurfiol i adolygu'r prosesau presennol o gynllunio ac adrodd ar fioamrywiaeth a chydnerthedd yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru (2017). Mae hyn yn awgrymu mai'r arfer gorau fyddai integreiddio cynllunio A6 â chynllunio corfforaethol ac nad oes angen paratoi a chyhoeddi cynllun A6 ar wahân i gyflawni'r ddyletswydd A6, er y gallai hyn fod yn ddefnyddiol o ran gweithredu.

5. Yn achos APCAP, ystyrir y byddai cynllun ar wahân yn mynd yn groes i'r egwyddor o gynllunio a chyflawni integredig y mae'r Awdurdod eisoes yn ei gweithredu. Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer cyfeirio er mwyn dangos sut mae'r Awdurdod o'r farn bod gofynion A6 yn cael eu bodloni a'u monitro, ac i glustnodi unrhyw feysydd allai gael eu cryfhau.

Canllawiau LIC ar A6	APCAP – sut y cyflawnwyd	APCAP – sut mae'n cael ei fonitro
<p>Datganiad lefel uchel sy'n dangos ymrwymiad i a chyfrifoldeb am gydymffurfio â'r ddyletswydd ar lefel gorfforaethol.</p>	<p>Mae Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021-22 APCAP yn nodi'r amcan Llesiant canlynol: Cydnerthedd: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.</p> <p>Gwneir y cyfraniad drwy ddulliau sy'n seiliedig ar natur sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth a chysylltiadau rhwng cynefinoedd, ac mae'r polisiau cynllunio a hyrwyddir gan yr Awdurdod yn cynnal ecosystemau iach yn y Parc ac yn cyfrannu at 'Gymru Gydnerth'.</p> <p>Mae'r Awdurdod yn cefnogi 'Cymru o Gymunedau Cydlynus' drwy hyrwyddo dulliau seiliedig ar le drwy weithio gyda pherchnogion tir, gwirfoddolwyr a chymunedau ar warchod y Parc.</p> <p>Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2021-22 yn amlinellu'r ddyletswydd A6 a chyfrifoldeb yr Awdurdod o ran y ddyletswydd honno.</p>	<p>Mae'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn nodi'r camau y mae'r Awdurdod i'w cymryd yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn ceisio gwireddu'r amcanion. Clustnodir cerrig milltir sy'n cael eu hadrodd yn fisol a/neu'n chwarterol a'u cyflwyno'n rheolaidd i Aelodau'r Awdurdod i'w craffu a'u cymeradwyo. Adroddir ar berfformiad blynyddol drwy Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) a gyflwynir i Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.</p>
<p>Y camau a gymerir i gyflawni'r ymrwymiad hwn ar draws swyddogaethau'r Parc. Gellir cysoni'r</p>	<p>1 a 6 wedi'u cyflawni drwy: Gynllunio corfforaethol – gweler rhes 1 uchod.</p>	<p>a) Mae gweithio tuag at gyflawni Amcan Cydnerthedd a Ffrydiau Gwaith yn y Cynllun Corfforaethol ac</p>

Canllawiau LIC ar A6	APCAP – sut y cyflawnwyd	APCAP – sut mae'n cael ei fonitro
<p>camau hyn ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru gan fod yr amcanion hyn yn anelu at wyrdroi dirywiad bioamrywiaeth yng Nghymru.</p> <p>Yr amcanion yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel. 2. Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well. 3. Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth* drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd. 4. Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd. 5. Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitro. 6. Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion. 	<p>Y ffyrddiau gwaith perthnasol yn y cynllun corfforaethol yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> a) Gwasanaeth Rheoli Tir: Cadwraeth (e.e. Gwarchod y Parc, Pwyth mewn Pryd, Cyswllt Natur). b) Y Gwasanaeth Cynllunio (e.e. Coed Gwarchodedig, polisiau bioamrywiaeth a chynaliadwyedd, canllawiau cynllunio atodol. c) Prosiectau Bioamrywiaeth a Chysylltedd. d) Gofalu am Ecosystem y Parc: Ymgysylltu a Gwirfoddoli. e) Strategaethau a Phartneriaethau: Cadwraeth. f) Polisiau a'r Gwasanaeth Cynllunio: Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy / Cadwraeth. g) Rhaglenni, polisiau a gweithdrefnau gweithredol (e.e. Polisiau amgylcheddol, Gwneud ein Hadeiladau yn fwy Gwyrdd). <p>2,3,4,5 wedi'u cyflawni drwy: Gamau gweithredu yr Awdurdod a'r partneriaid i gefnogi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2015-19, 2020-2024, sydd ei hun yn cefnogi Cynllun Adfer Natur Sir Benfro, rhaglenni amaeth-amgylcheddol / ffermio cynaliadwy Llywodraeth Cymru, mentrau perthnasol Llywodraeth Cymru</p>	<p>Adnoddau yn cael ei fonitro drwy adroddiadau perfformiad i'r Aelodau drwy'r Pwyllgor Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol. Adroddir ar berfformiad blynyddol drwy Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) a gyflwynir i Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl cael cymeradwyaeth yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.</p> <ol style="list-style-type: none"> b) Adroddiad ar reoli tir cadwraeth. c) Adroddiadau blynyddol ar fonitro'r CDLI. d) Arfarniad o adroddiadau'r APC ar gynaliadwyedd / bioamrywiaeth. e) Cynlluniau trydydd parti yn cael eu monitro gan y sefydliadau perthnasol.

Canllawiau LIC ar A6	APCAP – sut y cyflawnwyd	APCAP – sut mae'n cael ei fonitro
	<p>(e.e. cynllun gweithredu pryfed peillio) a'r tri cynllun rheoli Safle Morol Ewropeaidd). Mae'r Cynllun Rheoli yn seiliedig ar dystiolaeth o adroddiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, ac ar Ddatganiadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar y De Orllewin a'r Ardal Forol. Mae'r Cynllun Rheoli yn destun arfarniad cynaliadwyedd (gan gynnwys asesiad amgylcheddol strategol), Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Cynllun yn gyd-destun i bolisïau'r Cynllun Datblygu Lleol ac i'r canllawiau cynllunio atodol.</p>	
<p>Cyn diwedd 2019, a chyn diwedd pob trydedd flwyddyn ar ôl 2019, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r hyn y mae wedi'i wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd A6. Anogir sefydliadau i glustnodi eu ffyrdd eu hunain o adrodd - gallai hyn eto fod yn rhan o'u systemau adrodd a/neu broses gyffredin, megis eu hadroddiad blynyddol, neu fel dogfen benodol.</p>	<p>a) Adroddir ar berfformiad blynyddol drwy Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2). Bydd adroddiadau blynyddol a chynlluniau Corfforaethol ac Adnoddau yn y dyfodol yn cyfeirio at y ddogfen hon ar gyfer cyfeirio ac yn clustnodi gweithgareddau sy'n ymwneud â'r ddyletswydd A6.</p> <p>b) Adroddiad ar reoli tir cadwraeth.</p> <p>c) Adroddiadau monitro blynyddol y CDLI.</p>	<p>a) Mae Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni Amcanion Llesiant ac adroddiadau monitro blynyddol y CDLI yn mynd gerbron Pwyllgor yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.</p> <p>b) Cyflwynir adroddiad ar reoli tir cadwraeth i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.</p> <p>c) Cyhoeddir copïau o'r holl ddogfennau hyn ar wefan yr Awdurdod.</p>
<p>Rhaid i awdurdodau cyhoeddus y mae'n ofynnol iddynt gyhoeddi cynllun, adolygu'r cynllun hwnnw yng ngoleuni eu hadroddiad. Gallai hyn gynnwys gwerthusiad o:</p>	<p>Yr Awdurdod yn craffu drwy'r:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Adolygu Gweithredol • Yr Awdurdod Parc Cenedlaethol • Swyddfa Archwilio Cymru • Gweithdai'r Aelodau 	<p>a) Cyflwynir adroddiad ar reoli tir cadwraeth i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.</p>

Canllawiau LIC ar A6	APCAP – sut y cyflawnwyd	APCAP – sut mae'n cael ei fonitro
<ul style="list-style-type: none"> • pha mor dda y mae'r systemau cynllunio corfforaethol wedi ystyried ac wedi ymrwmo i • gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau • pa mor dda y mae amcanion y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael eu cyflawni, gan gynnwys defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael • sut mae'r agweddau ar gydnerthedd ecosystemau wedi'u defnyddio'n rhagweithiol • unrhyw fesurau o fioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau y gellir eu defnyddio (er enghraifft, cyfrannu at y Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) • cyflawniadau nodedig ar gyfer cynefinoedd neu rywogaethau. 	<p>Mae'r blaenoriaethau o fewn Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yn cael eu gwerthuso drwy'r broses cylch adolygu. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar dystiolaeth berthnasol, risgiau, cyfleoedd, cyflawniadau a gwerthuso'r mesurau a ddefnyddir.</p>	<ul style="list-style-type: none"> b) Mae Adroddiad Blynyddol yr Awdurdod ar Gyflawni Amcanion Llesiant ac adroddiadau monitro blynyddol y CDLI yn mynd gerbron Pwyllgor yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. c) Cyfleoedd yn y gweithdai i archwilio meysydd yn fwy manwl. d) Adolygu'r prosesau ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol a'r cynllun Corfforaethol ac Adnoddau.